# CYNGOR CYMUNED BUAN

Cofnodion Cyfarfod o'r Cyngor, gynhaliwyd nos Iau, 12 Ionawr, 2023
Yn Tu Hwnt i'r Afon, Rhydyclafdy

Presennol:

Cynghorwyr:

Wynne Davies
Catherine Hughes
Nia W. Jones
Rhys Jones
Tesni Jones
Einir Lewis
Phil Roberts
Dafydd Ll. Williams
Hughie Williams

Nerys Williams - Clerc

1. Ymddiheuriadau –

Cafwyd ymddiheuriad gan:

Gareth Roberts

2. Cofnodion cyfarfod 10 Tachwedd, 2022

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cynghorydd Hughie Williams. Cadarnhawyd cofnodion 10, Tachwedd, 2022 yn gywir gan y Cynghorydd Tesni W. Jones ac fe eiliwyd gan y Cynghorydd Catherine Hughes.

Nid oedd Cofnodion ar gyfer mis Rhagfyr gan na chynhaliwyd cyfarfod oherwydd diffyg aelodau yn bresennol.

3. Materion yn codi o'r cofnodion:-

Diffib ym Moduan wedi cael ei drwsio gan Gethin Scott, Trydanwr – heb dderbyn infois hyd yn hyn.

4. Materion Cynllunio –

C22/1041/33/DT – **The Lodge, Plas Boduan, Boduan**, Pwllheli, LL53 6DR – Ail gyflwyniad o gais am estyniad cefn i dŷ annedd yn dilyn gwrthod C22/0498/33/DT

Penderfynwyd:- CEFNOGI

C22/1111/33/LL – **Capel Bodfean, Boduan**, Pwllheli, LL53 8TY – Cais ar gyfer trosi Capel i lety gwyliau.

Derbyniwyd llythyr o wrthwynebiad gan aelod o'r cyhoedd yn datgan pryderon am yr effaith ar yr amgylchedd a'r draeniad a sut i ddatrys y broblem 'soak away'. Y tirwedd yn glai gwlyb o'i amgylch a does dim ffordd i ddŵr budr redeg i unman oddi wrth y safle. Pryder hefyd ynghylch y cynnydd mewn traffig, a'r ddwy gyffordd yn beryglus iawn.

Trafodwyd y cais a **phenderfynwyd** GWRTHWYNEBU.

C22/1134/33/LL – **Mochras Isaf, Ceidio** – Creu storfa slyri.

**Penderfynwyd**:- CEFNOGI

## 5. Datgan Diddordeb

Neb.

## 6. Ymatebion i ohebiaeth

Cafwyd e-bost oddi wrth gwmni 'Dawns i Bawb' yn gofyn am gyfraniad ariannol.

**Penderfynwyd**:- Cyfrannu £100.

Darllenwyd e-bost dderbyniwyd oddi wrth Iwan ap Trefor yn trafod y newidiadau arfaethedig i derfynau cyflymder.

Nodwyd y sylwadau.

## 7. Materion Ariannol

Derbyniwyd cysoniad banc o 4 Tachwedd, 2022 i 3 Rhagfyr, 2022 yn gywir yn y swm o £3005.83.

Cafodd y sieciau isod eu harwyddo gan ddau Gynghorydd yn ystod y mis oherwydd nad oedd cyfarfod mis Rhagfyr, 2022.

| | | |
|---|---|---|
| Cyngor Gwynedd (rhent cae ysgol) | £1.00 | Siec Rhif 200695 |
| Bacstal (Hyd at 30.09.2022) | £125.40 | Siec Rhif 200696 |
| Bartle St. Tudwals (Twnti) | £20.00 | Siec Rhif 200697 |
| Nerys Williams (Mis 9) | £111.79 | Siec Rhif 200698 |
| Cyllid a Thollau (Mis 9) | £28.00 | Siec Rhif 200699 |

Derbyniwyd cysoniad banc o 4 Rhagfyr, 2022 i 3 Ionawr, 2023 yn gywir yn y swm o £3410.59.

Cafodd y sieciau isod eu harwyddo gan ddau Gynghorydd ar ddiwedd y cyfarfod.

| | | |
|---|---|---|
| Cyllid a Thollau (Mis 10) | £28.00 | Siec Rhif 200700 |
| Bartle St. Tudwals (Twnti) | £20.00 | Siec Rhif 200701 |
| Nerys Williams (Mis 10) | £111.79 | Siec Rhif 200702 |
| Dawns i Bawb | £100.00 | Siec Rhif 200703 |

### Praesept 2023/2024

Cytunwyd i adael y Praesept fel y llynedd yn y swm o £3750.

Y Clerc i anfon at Cyngor Gwynedd i gadarnhau hyn.

Adroddwyd bod £678.55 wedi ei drosglwyddo yn ôl i gyfrif Cyngor Cymuned Buan gan Gronfa Covid, Tŷ Doctor Nefyn.

## 8. Unrhyw fater arall

Fe soniwyd bod Myfanwy Hughes, Morfa Nefyn yn holi os y buasai'n bosib i Gyngor Buan roi torch o Babi Coch ar y gofeb ym Moduan ar ddiwrnod Sul y Cofio. Cytunwyd i wneud hyn ac hefyd penderfynwyd rhoi torch ar y gofeb sydd yng Nghapel Rhydyclafdy i gofio am filwyr yr ardal a gollwyd ei bywydau yn y ddau Ryfel Byd.

### Materion Priffyrdd

Cafwyd nifer o gwynion ynglŷn â materion priffyrdd a phenderfynwyd anfon at Cyngor Gwynedd i nodi ein pryderon:-

- Nifer o ddamweiniau wedi digwydd yn ddiweddar ar lôn Boduan - a fuasai'n bosib cael arwydd 40 m.y.a.?
- Dŵr glaw yn rhedeg i lawr yr allt o Home Farm, Boduan tuag at yr eglwys ac ar draws y lôn. – A oes posib agor y dreiniau?
- Derbyniwyd cŵyn bod twll mawr yn y lôn ger Groesffordd Glanrhyd.
- Pant Glas, Rhydyclafdy – draen wedi cau ac yn gorlifo ar draws y lôn.
- Y ffordd o Rydyclafdy i Efailnewydd angen ei llnau.
- Meithrinfa Blagur – Llawer yn parcio o flaen Blagur yn hytrach nag yn y maes parcio fel ei bod yn anodd i loriau a thractors mawr basio. A fuasai'n bosib cael arwydd "Dim Parcio" neu linellau dwbl yno? Gofyn i'r Cyngor gysylltu gyda'r Feithrinfa i ddatgan ein pryderon.
- Lôn Tyddyn Cae (Lôn Felin) yn ddifrifol wael. Gofyn am y posibilrwydd o gael ei thrwsio a'i tharmacio.

Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu a'r Adran berthnasol ynglŷn â'r cwynion uchod..

Daeth y cyfarfod i ben am 8.30 p.m.

## 12. Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf -

Nos Iau, 8 Chwefror, 2023 am 7.30 p.m. yn Tu Hwnt i'r Afon, Rhydyclafdy.